Asiantaeth Trwyddedu
Gyrwyr a Cherbydau

Gwasanaethau
Cerbydau

# Diogelu eich cerbyd oddi ar y ffordd

## Beiciau modur, beiciau cwad, peiriannau adeiladu a pheiriannau gweithfeydd





CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE

INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

INF85W
10/25

**Fel pob cerbyd, mae yna risg y gallai cerbydau oddi ar y ffordd gael eu dwyn. Ond os byddan nhw'n cael eu dwyn, mae'n fwy anodd dod o hyd iddyn nhw os nad ydyn nhw wedi'u cofrestru gyda DVLA.**

**Cyflwynwyd cynllun i gofrestru cerbydau oddi ar y ffordd er mwyn gwella cyfraddau datgelu o ganlyniad i ladrad.**

# 01

## Beth y mae angen ichi ei wneud i gofrestru eich cerbyd oddi ar y ffordd

Cyn ichi wneud cais i gofrestru eich cerbyd oddi ar y ffordd gyda DVLA, rhaid ichi gysylltu â Chyllid a Thollau EF (CThEF). Os ydych chi'n fasnachwr sydd wedi'i gofrestru at ddibenion TAW, am ragor o wybodaeth am hysbysu CThEF ewch i **www.gov.uk/nova-log-in** Os ydych chi'n unigolyn preifat neu'n fasnachwr nad yw wedi'i gofrestru at ddibenion TAW, cysylltwch â'r tîm CARS yn **ecsm.nchcars@hmrc.gov.uk**

Llenwch 'Cais am dreth cerbyd cyntaf a chofrestru cerbyd modur ail-law' (V55/5W) a llofnodi'r datganiad sy'n ynghlwm i'r llyfryn hwn yn cadarnhau ni chaiff eich cerbyd ei ddefnyddio ar y ffordd gyhoeddus.

Anfonwch ddogfennaeth yn dangos Rhif Adnabod y Cerbyd (VIN) a rhif yr injan gyda'ch cais.

Anfonwch lungopi o'ch trwydded yrru cerdyn-llun y DU gyda'ch ffurflen gais i brofi eich hunaniaeth.

Os na allwch wneud hwn, rhaid ichi anfon llungopïau o un ddogfen sy'n profi eich enw a dogfen arall sy'n profi eich cyfeiriad.

**Y dogfennau y byddwn yn eu derbyn i gadarnhau eich enw yw eich:**

- pasbort
- tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil
- dogfen ysgariad neu ddiwedd partneriaeth sifil (archddyfarniad amodol, archddyfarniad absoliwt, gorchymyn amodol neu orchymyn terfynol)
- tystysgrif geni neu dystysgrif mabwysiadu

- tystysgrif adnabod rhywedd
- trwydded yrru bapur Prydain Fawr bresennol (nid y gwrthddalen bapur)

**Y dogfennau y byddwn yn eu derbyn i gadarnhau eich cyfeiriad yw:**

- bil nwy, trydan, dŵr neu ffon cartref a gyhoeddwyd yn y 3 mis diwethaf
- eich bil treth gyngor ar gyfer y flwyddyn bresennol
- cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu a gyhoeddwyd yn y 3 mis diwethaf
- cerdyn neu lythyr meddygol

Anfonwch eich cais i DVLA, Abertawe, SA99 1BE. Rhoddir rhif cofrestru ichi, ond cyn belled nad yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio neu ei gadw ar ffordd gyhoeddus ni fydd rhaid ichi ddangos plât rhif ar y cerbyd. Bydd tystysgrif gofrestru V5CW (llyfr log) yn cael ei hanfon atoch o fewn 4 wythnos.

## Gwybodaeth bellach

Gan fod hwn yn gynllun gwirfoddol, nid ydych yn talu ffi cofrestru cerbyd.

Bydd pob cerbyd yn cael rhif cofrestru rhagddodiad Q neu QNI.

Nid ydych yn talu treth cerbyd.

Nid oes angen yswiriant neu dystysgrif treth cerbyd i gofrestru eich cerbyd ar gyfer defnydd oddi ar y ffordd.

Nid oes angen ichi wneud datganiad HOS.

Os yn ddiweddarach rydych am ddefnyddio eich cerbyd ar y ffordd gyhoeddus, bydd angen ichi anfon nodyn esboniadol a'r canlynol i DVLA, Abertawe, SA99 1DZ:

- y dystysgrif gofrestru V5CW (llyfr log) gyfredol plât Q neu QNI sy'n bodoli
- ffi am gofrestru cyntaf
- 'Cais am dreth cerbyd' (V10W) wedi'i chwblhau
- ffi briodol am dreth cerbyd
- tystiolaeth o bwysau refeniw (gros) y cerbyd (o'r gwneuthurwr)
- tystiolaeth o gymeradwyaeth math (fel arfer yn dystysgrif cydymffurfio) oni bai bod eich cerbyd wedi'i eithrio
- prawf o MOT dilys (mae copïau electronig yn dderbyniol) neu dystysgrif Prawf Cerbyd Nwyddau (os yn berthnasol) (ni fydd tystiolaeth o MOTs ar gyfer cerbydau ysgafn a beiciau modur yn cael ei dychwelyd)

- Datganiad eithriad rhag cael MOT (V112W) (os yw'r cerbyd wedi'i eithrio rhag cael MOT)
- Datganiad eithriad rhag cael prawf cerbyd nwyddau (V112G) (os yw'r cerbyd wedi'i eithrio rhag cael prawf cerbyd nwyddau)
- tystysgrif yswiriant modur gyfredol neu sicrwydd yswiriant am gerbydau sydd wedi eu cofrestru gyda chyfeiriad Gogledd Iwerddon
- tystiolaeth o ddyddiad cynhyrchu (dim ond os ydych am gael rhif cofrestru sy'n berthnasol i'w oedran)

Mae pob cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar ffordd gyhoeddus yn destun i ofynion adeiladwaith a defnydd, a rhaid iddyn nhw gydymffurfio â Rheoliadau Cerbydau Ffordd (Gwneuthuriad a Defnydd) 1986, neu Reoliadau Cerbydau Modur (Gwneuthuriad a Defnydd) (NI) 1999. Cyfrifoldeb y ceidwad yw sicrhau bod y cerbyd yn bodloni'r Rheoliadau Gwneuthuriad a Defnydd ar gyfer defnyddio'r cerbyd ar y ffordd.

# 02

## CESAR – y cynllun diogelu a chofrestru swyddogol

Mae'r Grŵp Gweithredu ar Ddwyn Offer wedi cyflwyno cynllun i ddiogelu ac olrhain offer a pheiriannau sydd wedi'u cofrestru. Gweinyddir CESAR gan Datatag.

1. Mae pob cerbyd a gofrestrir dan y cynllun yn cael eu gosod yn barhaol gyda phlatiau adnabod trionglog unigryw a gweledol iawn all ddangos ymyrraeth amlwg ac maent yn cynnwys ymatebwr cludiant Datatag unigryw i gynorthwyo i ddod o hyd i gerbydau yn dilyn achos o ddwyn
2. Bydd pob peiriant a system CESAR wedi'u cofrestru'n barhaol ar gronfa ddata diogel ac achrededig Datatag ar gyfer ymholiadau gan yr heddlu a chwsmeriaid
3. Pan ofynnir amdanynt, bydd peiriannau ac offer hefyd yn cael eu cofrestru ar Gofrestr Oddi ar y Ffordd DVLA (ORR) gan ganiatáu i'r heddlu gael mynediad ar unwaith i gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu a ffeiliau ceidwaid cofrestredig.

Am wybodaeth bellach ynghylch CESAR cysylltwch â Datatag ID Ltd ar **08450 700 440** (canolfan gyswllt 24 awr). Nodwch os gwelwch yn dda: Ni ddylech gysylltu â DVLA os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynghylch cynllun CESAR.

# 03

## Datganiad – defnyddio cerbyd oddi ar y ffordd

Llenwch y datganiad hwn a'i anfon gyda 'Cais am dreth gyntaf a chofrestru cerbyd modur ail law' (V55/5W) pan fyddwch yn cofrestru'r cerbyd i'w ddefnyddio oddi ar y ffordd.

Rwyf yn datgan y bydd y cerbyd:

________________________________________

(rhif ffrâm, siasi neu VIN) **yn cael ei ddefnyddio oddi ar y ffordd yn unig.**

Llofnod: __________________________________

Dyddiad: __________________________________

**Nodyn pwysig:** Os oes angen ichi ddefnyddio'ch cerbyd ar y ffordd gyhoeddus, mae'n rhaid ichi ei drethu yn:

DVLA
Abertawe
SA99 1DZ.

Torrwch allan a'i ddychwelyd gyda ffurflen gais V55/5W

**Cadwch yn gyfoes â'n newyddion diweddaraf a gwasanaethau yn:**

**gov.uk/dvla-cymraeg**